CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

472/51

**HANES – HI2**

**UNED 2**

**ASTUDIAETH O GYFNOD 1**

# AGWEDDAU AR HANES CYMRU A LLOEGR, tua 1485-1603

P.M. DYDD MERCHER, 7 Mehefin 2006

(45 munud)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **un** cwestiwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn.

Mae'n bosibl fod y dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

**Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.**

## UNED 2

## ASTUDIAETH O GYFNOD 1

## AGWEDDAU AR HANES CYMRU A LLOEGR, tua 1485-1603

*Atebwch* **un** *cwestiwn.*

*Yn eu hymateb i'r cwestiwn dehongli, dylai ymgeiswyr ystyried dilysrwydd y dehongliad gan ddefnyddio'u gwybodaeth o'r cyfnod a dehongliadau posibl eraill. Dylai ymgeiswyr hefyd ystyried ffactorau a allai fod wedi dylanwadu ar y ffordd y ffurfiwyd y dehongliad – megis y math o hanesydd/awdur, y dystiolaeth oedd ar gael i'r hanesydd/awdur a'r dyddiad cyhoeddi.*

**1. Cymru a'i pherthynas â Lloegr, tua 1500-1543**

'Trwy ddileu pob symptom o wahaniaethau cenedlaethol, ieithyddol, cyfreithiol a chrefyddol, roedd y Tuduriaid wedi llwyddo yn eu nod o droi Cymry yn Saeson.'

[R. T. Jenkins, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes Cymru, yn ysgrifennu mewn llyfr hanes cyffredinol, *Yr Apêl at Hanes* (1931)]

Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o Gymru a'i pherthynas â Lloegr yn y cyfnod 1500-1543? [80]

**2. Anglicaniaeth a Phiwritaniaeth yng Nghymru a Lloegr, 1559-1603**

'Rhaid diystyru *(write off)* Piwritaniaeth fel achos coll yng nghyfnod olaf y Frenhines Elisabeth.'

[Patrick McGrath, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes crefydd, yn ysgrifennu mewn llyfr hanes arbenigol, *Papists and Puritans under Elizabeth I* (1967)]

Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o Biwritaniaeth yn y cyfnod 1559-1603? [80]

**3. Mari Stiwart, y bygythiad Catholig a'r berthynas â'r pwerau Catholig, 1568-1603**

'Nid oedd carcharu Mari Stiwart erioed o bwys mawr yn y berthynas elyniaethus gynyddol a ddatblygodd rhwng Lloegr a'r pwerau Catholig wedi 1568.'

[Eric St John Brooks, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes cymdeithasol Lloegr yn yr unfed ganrif ar bymtheg, yn ysgrifennu mewn bywgraffiad hanesyddol, *Sir Christopher Hatton, Queen Elizabeth's Favourite* (1946)]

Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o Mari Stiwart, y bygythiad Catholig a'r berthynas â'r pwerau Catholig rhwng 1568 a 1603? [80]